

PRIFFYRDD, CYMRU

2016 RHIF 37

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SAFLE BMW SYTNER, HEOL PENARTH, CAERDYDD) 2016

<i>Gwnaed</i>	8 Tachwedd 2016
<i>Yn dod i rym</i>	14 Tachwedd 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrd (Safle BMW Sytner, Heol Penarth, Caerdydd) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adneuyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrd (Safle BMW Sytner, Heol Penarth, Caerdydd) 2016” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Ebrill 2016 o dan y cyfeirnod

HIGHWAYS, WALES

2016 NO. 37

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (BMW SYTNER SITE, PENARTH ROAD, CARDIFF) ORDER 2016

<i>Made</i>	8 November 2016
<i>Coming into Force</i>	14 November 2016

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

Title, Interpretation and Commencement

1. (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (BMW Sytner Site, Penarth Road, Cardiff) Order 2016.

(2) In this Order:-

“the Council” (“*y Cyngor*”) means the Council of the City and County of Cardiff;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been given;

“the deposited plan” (“*y plan a adneuyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (BMW Sytner Site, Penarth Road, Cardiff) Order 2016” which accompanies this Order; and

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5 and 6 the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 27 April 2016 under reference

16/00124/MJR, ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

Priffordd y Gwneir Gweliannau Iddi

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau o briffordd y gwneir gweliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a bydd y briffordd hon, at ddibenion Deddf Prifyrdd 1980(2), i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

4. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y darnau o briffordd y gwneir gweliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darnau o briffordd i'w cau;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr

5. Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darnau o briffordd, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

number 16/00124/MJR and described in Schedule 3 to this Order.

Improved Highway

3. There must be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the improved lengths of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plan which are for the purposes of the Highways Act 1980(2) highway maintainable at the public expense.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

4. The length of highway in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, the lengths of improved highway described in Schedule 2;

(b) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;

(c) the development in Schedule 3 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to close the highway to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

Statutory Undertakers and Providers

5. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

6. If the development described in Schedule 3 has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of such period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Tachwedd 2016

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated 8 November 2016

*Nina Ley
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru*

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd ethygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
(2) 1980 p. 66.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 116.5 o fetrau yn y man hiraf a 12.7 o fetrau yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn (i'w troi'n droeffordd)

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 20.5 o fetrau yn y man hiraf a 3.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 10.2 o fetrau yn y man hiraf a 3.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

*Nina Ley
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government*

- (1) 1990 c. 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.
(2) 1980 c.66.

SCHEDULES

SCHEDULE 1 (All measurements are approximate)

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 116.5 metres and a maximum width of 12.7 metres and given the reference 'C' on the deposited plan.

SCHEDULE 2 (All measurements are approximate)

Description of the lengths of highway to be improved under this Order (to become footway)

1. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 20.5 metres and a maximum width of 3.5 metres and given the reference 'A' on the deposited plan.
2. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 10.2 metres and a maximum width of 3.5 metres and given the reference 'B' on the deposited plan.

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn (i'w troi'n gwrb isel at ddefnydd cerbydau)

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o droetffordd Heol Penarth, Caerdydd sy'n gyfagos i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, sy'n 19 o fetrau yn y man hiraf a 2.4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o droetffordd Heol Penarth, Caerdydd sy'n gyfagos i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, sy'n 17.6 o fetrau yn y man hiraf a 2.8 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Y Datblygiad

Adeiladu delwriaeth BMW newydd a fydd yn cynnwys ystafell arddangos ar gyfer ceir BMW/I-Car, gwasanaeth MOT, canolfan wasanaethu gyrru'r car i mewn iddi, gweithdy, adeilad golchi cerbydau/valet ar wahân, man arddangos ceir yn yr awyr agored a gwaith allanol cysylltiedig.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (SAFLE BMW SYTNER, HEOL PENARTH, CAERDYDD) 2016

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn a darparu'r rhannau o'r briffordd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrd (Safle BMW Sytner, Heol Penarth, Caerdydd) 2016 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1260169.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

Description of the lengths of highway to be improved under this Order (to become vehicular crossover)

3. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the footway of Penarth Road, Cardiff adjacent to the current Kia Site at Kismet Park, with a maximum length of 19 metres and a maximum width of 2.4 metres and given the reference 'D' on the deposited plan.
4. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the footway of Penarth Road, Cardiff adjacent to the current Kia Site at Kismet Park, with a maximum length of 17.6 metres and a maximum width of 2.8 metres and given the reference 'E' on the deposited plan

SCHEDULE 3

The Development

Construction of a new BMW dealership, comprising of a showroom for BWM/I-Car display, MOT, Service Drive-in, Workshop, Separate Wash/Valet building, External display and associated external works.

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (BMW SYTNER SITE, PENARTH ROAD, CARDIFF) ORDER 2016

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice and provide the improved areas of highway described in Scheduled 2 to this Notice to enable the development described in Schedule 3 to be carried out. The Stopping Up of Highways (BMW Sytner Site, Penarth Road, Cardiff) Order 2016 ("the Order"), will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at the offices of Cardiff Council, County Hall, Atlantic Wharf, Cardiff CF10 4UW during normal office hours or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1260169.

- a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu
- b. na chydymffurfwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 11 Tachwedd 2016, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-deddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/ 2016).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 14 November 2016 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2016).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL

Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurffio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 116.5 o fetrau yn y man hiraf a 12.7 o fetrau yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2 (Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn (i'w troi'n droeffordd)

5. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurffio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 20.5 o fetrau yn y man hiraf a 3.5 metr yn y man lletaf ac y

M D BURNELL

Transport
Welsh Government

SCHEDULES

SCHEDULE 1 (All measurements are approximate)

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 116.5 metres and a maximum width of 12.7 metres and given the reference 'C' on the deposited plan.

SCHEDULE 2 (All measurements are approximate)

Description of the lengths of highway to be improved under this Order (to become footway)

5. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 20.5 metres and a maximum width of 3.5 metres and given the reference 'A' on the deposited plan.

rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o'r ffordd fynediad a'r ffordd wasanaethu i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, Heol Penarth, Caerdydd sy'n 10.2 o fetrau yn y man hiraf a 3.5 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn (i'w troi'n gwrb isel at ddefnydd cerbydau)

7. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o droetffordd Heol Penarth, Caerdydd sy'n gyfagos i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, sy'n 19 o fetrau yn y man hiraf a 2.4 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.
8. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n ffurfio rhan o droetffordd Heol Penarth, Caerdydd sy'n gyfagos i safle presennol Kia ym Mharc Kismet, sy'n 17.6 o fetrau yn y man hiraf a 2.8 metr yn y man lletaf ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

6. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the access and service road to the current Kia Site at Kismet Park, Penarth Road, Cardiff with a maximum length of 10.2 metres and a maximum width of 3.5 metres and given the reference 'B' on the deposited plan.

Description of the lengths of highway to be improved under this Order (to become vehicular crossover)

7. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the footway of Penarth Road, Cardiff adjacent to the current Kia Site at Kismet Park, with a maximum length of 19 metres and a maximum width of 2.4 metres and given the reference 'D' on the deposited plan.
8. An irregular shaped length of all purpose highway forming part of the footway of Penarth Road, Cardiff adjacent to the current Kia Site at Kismet Park, with a maximum length of 17.6 metres and a maximum width of 2.8 metres and given the reference 'E' on the deposited plan

ATODLEN 3

Y Datblygiad

Adeiladu delwriaeth BMW newydd a fydd yn cynnwys ystafell arddangos ar gyfer ceir BMW/I-Car, gwasanaeth MOT, canolfan wasanaethu gyrru'r car i mewn iddi, gweithdy, adeilad golchi cerbydau/valet ar wahân, man arddangos ceir yn yr awyr agored a gwaith allanol cysylltiedig yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Ebrill 2016 o dan y cyfeirnod 16/00124/MJR.

SCHEDULE 3

The Development

Construction of a new BMW dealership, comprising of a showroom for BMW/I-Car display, MOT, Service Drive-in, Workshop, Separate Wash/Valet building, External display and associated external works in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 27 April 2016 under reference number 16/00124/MJR.

